# Torri'r Cylch

## Gweithgaredd 3

## Meddwl plentyn

Alla'i ddim aros i gyrraedd yr ysgol. Mi fydd hi'n grêt . O, drychwch, dyma blant eraill. Mae'n rhaid eu bod yn mynd i fy ysgol i. Mae nhw'n aros am y bws ysgol. Mi wna'i ymuno â nhw. (Saib) Ar beth mae nhw'n edrych? (Saib) Fi? Mae'n edrych fel eu bod nhw'n glaswenu ac yn chwerthin am fy mhen. Pam eu bod nhw'n gwneud hynny? Dydw i ddim wedi gwneud dim byd iddyn nhw.

RHWYG RHWYG

Mae nhw'n siarad amdana i. Beth mae nhw'n ddweud? Hyll? Mae nhw'n dweud fy mod i'n hyll. Pam eu bod nhw'n dweud hynny? Dydw i ddim wedi gwneud dim byd iddyn nhw.

RHWYG RHWYG

Dyma blant eraill yn dod. Efallai y byddan nhw'n stopio'r plant yna rhag gwneud hwyl am fy mhen. Beth mae nhw'n wneud? O! Mae nhw'n fy anwybyddu i ac yn esgus peidio clywed. Fyddai'n well gen i petaent ddim yn sefyll yno a gwneud dim. Mae'n rhaid eu bod nhw'n teimlo fel fi.

RHWYG RHWYG

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

Rydw i'n edrych ar y llawr ac yn cadw'n dawel. Mae gen i ormod o gywilydd i ddal llygad neb. O! Mae'r bws wedi cyrraedd, mae'r gyrrwr yn gweiddi arna i i frysio. Mae pawb yn chwerthin.

RHWYG RHWYG

Yn y dosbarth mathemateg roeddwn i mewn breuddwyd a rhoddodd yr athro linell goch trwy fy ngwaith. Pwffian chwerthin wnaeth gweddill y dosbarth.

RHWYG RHWYG

Amser chwarae daeth plant y bws i sefyll o'm cwmpas a dechrau fy ngwthio i nôl a blaen. Roedd y fenyw cinio yn meddwl ein bod yn cael hwyl. Roeddwn i eisiau dweud wrthi nad oeddwn i, ond fe ddywedon nhw wrtha'i am gau fy ngheg neu fe fyddwn yn ei chael hi'n waeth. Ddywedais i ddim.

RHWYG RHWYG

Amser cinio fe ddywedon nhw wrth bawb am beidio ag eistedd gyda fi. Ond wnes i ddim byd o gwbl iddyn nhw - pam eu bod nhw'n gwneud hyn i mi?

RHWYG RHWYG

Es i i'r tŷ bach ac wrthi'n golchi fy nwylo yn y sinc a daethon nhw i mewn "Pam wyt ti'n golchi dy ddwylo? Mae angen i ti olchi dy gorff i gyd. Ti'n drewi". Ydw i?

RHWYG RHWYG

Yn y wers gwyddoniaeth roedden ni'n astudio mwncïod. Pan adewais y dosbarth roedd rhai yn sefyll tu allan ac fe ddechreuon nhw wneud synau ac ystumiau mwnci wrth i mi gerdded heibio. Dyna ddigon - sgrechiais arnyn nhw, dagrau yn llifo i lawr fy wyneb "PAM YDYCH CHI'N GWNEUD HYN I MI - BETH YDW I WEDI EI WNEUD I CHI?"

RHWYG RHWYG

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

Clywodd yr athro fi'n sgrechian.  Fe ddywedon nhw fy mod i wedi bod yn eu poeni nhw drwy'r dydd.  Fe es i i drwbl.  Dwi'n teimlo fy mod wedi fy rhwygo'n ddarnau.

RHWYG RHWYG

RHWYG RHWYG RHWYG……….

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent